# Gofalu am y gaseg a’i pharatoi ar gyfer cyplu

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gofalu am y gaseg a'i pharatoi ar gyfer cyplu.

Dylech allu gofalu am y gaseg ddiffrwyth, cadarnhau derbyngarwch y gaseg ar gyfer cyplu, paratoi'r gaseg ar gyfer cyplu a gofalu am gesig beichiog o gyplu i fwrw ebol.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. gofalu am y gaseg ddiffrwyth er mwyn cynyddu ei siawns o genhedlu
3. cymryd rhagofalon priodol i atal clefydau a drosglwyddir yn rhywiol
4. cadarnhau derbynioldeb y gaseg ar gyfer cyplu yn unol ag arfer da presennol y diwydiant
5. paratoi'r gaseg ar gyfer cyplu'n gywir ac yn unol ag arfer da presennol y diwydiant
6. cynorthwyo gyda chyplu'r gaseg â'r march dynodedig
7. gwneud trefniadau ar gyfer profion beichiogrwydd a chyfathrebu â'r person priodol yn brydlon
8. cyfrannu at arferion pryfocio'r sefydliad
9. cynnal gofal iechyd cesig beichiog fel mater o drefn o gyplu i fwrw ebol
10. sicrhau eich bod yn cynnal lefelau hylendid a bioddiogelwch priodol
11. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. y rheoliadau yn ymwneud â swabio cesig am glefydau a heintiau gwenerol
3. sut i adnabod clefydau gwenerol a'r angen i hysbysu'r awdurdod perthnasol
4. cynlluniau magu a chofrestru
5. dulliau ac amseriad profion beichiogrwydd
6. achres a dethol cesig a meirch ar gyfer bridio a'r defnydd o hiliogaeth a fwriedir
7. y cylch estrws, arwyddion o estrws a rheolaeth hormonaidd
8. dulliau o gadarnhau derbynioldeb ar gyfer cyplu
9. offer y gellir ei ddefnyddio wrth brofi a chyplu
10. anatomeg atgenhedlol caseg a march
11. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch wrth ofalu am a pharatoi cesig ar gyfer cyplu, a'r dulliau o gyflawni hyn
12. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
13. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol.

## Cwmpas/Ystod

Paratoi o leiaf un gaseg ar gyfer pryfocio ac o leiaf un gaseg ar gyfer cyplu, un ohonynt ag ebol wrth ei hystlys.

Hybu iechyd trwy dri o'r canlynol:

- rheoli parasitiaid
- crafu dannedd
- torri traed
- brechu fel mater o drefn

Cymryd y rhagofalon canlynol:

- swabio
- hylendid

Gofalu am y gaseg a'i pharatoi ar gyfer cyplu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq330 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | magu; caseg; ceffylau; ceffyl; cyplu |